

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

fore Iau 18 Chwefror, 2016 am 10.30

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 15 Chwefror 2016. Mae gan gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd yr hawl i annerch y Cabinet yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Noder: y Cadeirydd sydd â'r gair olaf o ran caniatáu'r cais i annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CONSORTIWM COMISIYNU PLANT

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r cabinet ar waith y Consortiwm Comisiynu Plant.

3 ASESU ANGHENION LLETY AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR - DEDDF TAI (CYMRU) 2014

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y broses o Asesu Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, canlyniadau'r asesu a'r effaith ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 7 - 66

4 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN WEITHREDU DATGANIAD CYDGOMISIYNU AR GYFER GWASANAETHAU I BOBL HŶN

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno'r Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn.

Tudalennau 67 - 178

5 CYNLLUN COMISIYNU 'CYMORTH I'R BOBL' 2016-2017.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y Cynllun Comisiynu 'Cymorth i'r Bobl' dangosol 2016/17 ynghad â gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Comisiynu Lleol ar gyfer Rhaglen 'Cymorth i'r Bobl' Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 179 - 210

6 CYTUNDEB DINESIG I BRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Derbyn adroddiad y prif weithredwr sy'n rhoi gwybodaeth i aelodau am gynnydd mewn perthynas â Chytundebau Dinesig.

Tudalennau 211 - 216

7 MATERION BRYD

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet